YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LI. GORFFENNAF, 1951 RHIF 7.

Nodiadau'r Golygydd.

ANNWYL 'NANCE,'—

Diolch yn fawr am eich cyfraniadau unwaith eto ac am y degau o benillion bach pert a gyhoeddwyd gennych yn gyson ymhell cyn fy amser i fel golygydd. Y mae rhai yn gywbod pwy ydych a llawer mwy efallai yn ceisio dyfalu pwy all 'Nance' fod! A dweud y gwir, wn i ddim llawer amdanoch, ond gwn ddigon hefyd. Gwn eich bod yn ffyddlon i'r YMOFYNNYDD ac yn garedig i'w olygydd pwy bynnag y bo. Gwn eich bod yn alltud yn byw ymhell o'r hen fro ac yn hiraethu amdani ac am acenion ei Chymraeg. Ysgwn i sut y byddwch yn teimlo wrth bostio llythyr i'r YMOFYNNYDD ac i'r hen ardal? Sut y bydd hi wedyn wrth agor yr YMOFYNNYDD a'i ddarllen o glawr i glawr—a gwn eich bod yn gwneud hynny. Dim ond y bobl sydd heb brofi chwerwder alltudiaeth sy'n ei droi naill ochr heb dorri'r dail. Gallant hwy siarad Cymraeg â chyfaill a chår ond i chwi mae'r YMOFYNNYDD yn Gymro sydd wedi dod i roi tro amdanoch yn y wlad bell—ac fe gaiff groeso.

Er fod 'Eich Gweinidog' yn gerddwr heb ei ail, y mae Oldham braidd yn bell erbyn hyn. A gaiff YR YMOFYNNYDD gymryd ei le am dro a dod i ymyl eich gwely a llond ei fynwes o gydymdeimlad a dweud 'bendith arnoch ac adferiad buan.' Ac nid yn unig atoch chwi, Nance, ond aed hefyd i bob cartref yn ei blwyf helaeth i ddwyn ei stori am yr hen fro a'i neges am y ffydd sydd mor annwyl iddo. Ni ddymunai ddim gwell na chael ei alw gan ambell alltud unig wrth y teitl syml, 'Fy Ngweinidog.'

Cofion cywir atoch,

JACOB.

Cornel y Cerddor

DAFYDD LEWIS, LLANRHYSTYD.

Gan Mws Bac.

Un o gerddorion cefn gwlad Sir Aberteifi yn y ganrif o'r blaen oedd Dafydd Lewis, a gŵr y mae arnom gryn ddyled iddo fel crefyddwyr sy'n hoff o ganu emyn. Ychydig iawn o ysgol ddyddiol a gafodd erioed ond yn ei oriau hamdden prin ymroes i ddysgu a meistroli cerddoriaeth. Diwylliodd ei feddwl mewn Ysgol Nos wrth olau'r gannwyll frwyn, a bywyd syml a fu iddo hyd y diwedd. Ddwy flynedd cyn ei farw yn 1908 ceir nodiad yn ei ddydd lyfr, "Talcan Hen Dy Mawr yn cwympo rhwng deg ag un-ar-ddeg p.m., gyda sŵn arswydus, a minnau wrth lwc, yn y gwely." Ei fwthyn to gwellt oedd yr Hen Dy Mawr, a'r gŵr yma a lynodd at yr hen ffordd o fyw a gyfansoddodd ddegau o emynau sy'n dal yn ganadwy o hyd.

Wrth ddarllen *Detholiad o Donau, Anthemau a Rhanganau*, sef casgliad o'i waith a byrgofiant iddo gan D. Wyre Lewis y dydd o'r blaen, gwelais lythyr o'i eiddo a all fod o ddiddordeb i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd. Fel pob cerddor yr oedd yn ofalus o'i hawlfraint a chododd y mater ar ôl cyhoeddi'r *Perlau Moliant* cyntaf.

"Llanrhystyd, R.S.O.,
Nr. Aberystwyth.
Mai 3, 1897.

Mr. D. Eiddil Jones,—

Annwyl Mr. Jones,—Daeth *Perlau Moliant* i'm llaw yn ddiogel. Wrth ei fras olygu cefais gryn bleser—ond rhaid bod yn onest, cefais beth siom a gofid hefyd. Wrth gwrs ar fy eiddo fy hun y sylwais gyntaf. Caf "Ffinnant" a "Iolo" wedi newid eu cyweirnodau. Wel, nid yw hynny o bwys mawr gennyf, ond yr ydys wedi annurddo'r 5ed llinell o "Tydfil" wrth ei chyfieithu i'r Sol-Ffa. Mae ynddi wall cynghaneddol yn ei gwisg newydd. Dylai'r saith nod flaenaf o'r llinell fod yng nghweirnod F, a'r c.t. fod wedi eu gosod uwch yr 8ef nod.

Hefyd nid wyf fodlon i'r "Seibiau" yna yn niwedd y llinellau. Eto yr ydys wedi gwneud gwall cynghaneddol yn y 5ed bar o "Newman"—trwy newid amser yr Alto. Dylech yn bendifaddau wneyd nodiad cyhoeddus ar y materion yma, gan fod y tonau a'u hawdur yn cael cam. Hefyd, yr ydys wedi gosod "Rhydygwin" i mewn heb ofyn fy nghaniatâd. Cyfansoddais hi Ebrill 4, 1862. Mae o fy ngwaith felly, yn y casgliad 11 o donau. Cefais, fel y gwyddoch, fy nhalu am wyth ohonynt. Byddaf yn disgwyl tâl ar

yr un-ar-ddeg am y 3 arall . . . Os caniata fy iechyd, efallai cyn bo hir, cewch rai cywiriadau o awduraeth emynau a thonau yn y P.M.

Ydwyf, yr eiddoch, gyda chofion melus,

D. Lewis."

Yn ôl y llyfr yma y mae "Islwyn," "Tydfil" a "Rhydygwin" wedi ei cyhoeddi ym *Mherlau Moliant* 1928, a phetai gennyf gopi o hwnnw wrth law, diddorol fuasai gweld a wnaethpwyd y cywiriadau a enwodd yn y dôn "Tydfil." Ond dyna destun ymchwil i un ohonoch chwi'r cerddorion !

Fy Ngweinidog

Gan Nance.

Pan oeddwn groten, EFE oedd gweinidog fy mam. Pan oeddwn lodes ifanc, EFE oedd fy ngweinidog innau. Yn ganol oed, ie, yn fenyw ' ben-arian ' (neu a ddylwn fentro ar y gair *hen* ?), EFE yw fy ngweinidog eto.

Pan oeddwn blentyn, yr oedd blynyddoedd maith o wahaniaeth wrth fesur ein hoedran. Dyma ni erbyn hyn, yn agos a bod yn gydradd ! Ystyriwch ni yn ôl pen y naill a'r llall ohonom. Gwelwch fy mhen i fel rhyw Gloc-Dant-y-Llew yn nesu o draw. Ni wnêl 'sglaer fach o olew mwyn un effaith arno bellach. Ie, Hi yw Hi !

Cydiwch yn fy llaw, a dewch i sbïo yn foneddigaidd ac yn barchus ar ben fy ngweinidog. Ychydig yn fwy prin efallai oddeutu'r gopa ; nid bai henaint, ond bai trymder a lliw het gweinidog ar hyd y blynyddoedd. Ond sylwch ar ledneisrwydd y deunydd a'r graen hyfryd sydd arno bob amser. Diolch i wraig fwyn, lednais fy ngweinidog am edrych mor dda ar ei ôl !

Dyma fi wedi taro bys ar yr hoel ! Paham y mae fy ngweinidog yn edrych gymaint yn iau na myfi ? Myfyr ac awgrym yn unig. Diolch i chwi Mrs. ——— am ofal cyson, tirion amdano. Ni ddwedaf ei enw wrth neb yn fwy na dweud fod Ciliau a Rhydygwin a holl Shir Aberteifi, yn enwedig Y Smotyn Du yn stâd iddo. A ninnau eu ŵyn yn ceisio cyrchu at y nôd wrth ymdrechu dilyn un hen flotyn bach ar ôl y llall, pob un ar ei lwybr ei hunan. Daled llais y bugail yn bêr a hyglyw.

A dyma fi ar wely sâl, a phum mlynedd-ar-hugain bellach rhyngof a'm hen gartref a'm hen weinidog, a'm trigfa yn Oldham bell.

Ond Efe o hyd yw fy Ngweinidog. Diolch amdano a Duw yn hawdd iddo !

Adre am Glonc

Gan NANCE.

"LODES, pwy oedd honna te?—Pwy? Annie oedd hi? Odi hi gatre te? Dir, dir, ond yw hi wedi heneiddo? Tipyn bach o swanc yndi o hyd, ond na fe, odd hi'n arfer gneud ambell i 'durn-out'.

Stopwch chi, pwy bart o Loeger mai te? Ar bwys Manchester? O odi, mai'n dod unwaith y flwyddyn—y *fares* na wedi mynd lan eto.

Byddwch ddistaw blant, fydd y cawl ddim yn hir!

Do, do, gweles hi llynedd. O ie, 'run hen gostiwm fach sy amdani, ond mae rhywbeth yn ddierth beutu'r hat—ie'r blyfen falle!

Jiw, Jiw, lipstic cofiwch! Hen lodes fel hi! Hawyr bach, ma'r crwt lleia dros un ar hugen 'nawr, a'r hen yn henach na hynny! Odi wir, mae wedi tewhau hefyd. Meddyliwch—mai'r un hyd a lled!

Shwsis coch, wedoch chi? Mae shŵr o fod wedi talu lot amdani nhw. Dyna beth yw strôc. Arian—na—hela'r cwbwl allwch fentro! Yn glyfer, wel mi ddyle wbod rhywbeth, mai wedi bod yn teacho plant. Jiw, mae'n debyg i mham!

Helo Annie fach! Shwt i chi te? 'Row'n i'n gweud 'nawr y dylwn fod yn nabod y ladi odd wedi paso. Dir, dir, 'rych chi'n edrych mor ifanced ag eriod. Ond na fe, 'roech chi'n arfer edrych yn smart stil. Tyt, tyt, 'dyw gwallt gwyn ddim ots. Ond ôs shwsis bach neis da hi! Y crwt lleia yn un ar hugen. Wel, wel, wedech chi byth!

Pryd i chi'n mynd 'nôl?

Ac yna un ffras sy'n werth y cwbwl i gyd, "Jiw, mae'n debyg i mham!"

Y Ffair Gyflogi

Drama at wasanaeth y Plant gan D. JACOB DAVIES.

[Lleolir y ddrama hon ar ben Pont Teifi yn Llandysul, sir Aberteifi, tua diwedd y ganrif ddiwethaf. Gellir newid y lleoliad o bydd y ffeithiau'n dal yn gywir, ond o wneir hyn gofaler am newid y cyfeiriadau at afon Teifi. Darparwyd y ddrama ar gyfer llwyfan syml, ond gellid ei throsi at wasanaeth llwyfan mwy

uchelgeisiol yn hawdd. Defnyddier rhes o gadeiriau, neu fwrdd hir wedi eu gorchuddio i ddynodi mur y bont, a dynoder y cyfnod trwy wisgo dillad addas. Dylai'r côr cyd-adrodd weithio yn ddwy ran, un bob ochr i'r llwyfan].

CÔR : Aeth blwyddyn gyfan heibio,
Daeth Calan Gaeaf eto,
A gwelir Wil a Jac y gwas
Yn dod yn fras dan frysio.

Daw'r Cowman hefyd yno
A Twm gwas bach yr Henfro,
Pob un mewn dillad brethyn gwlân
Pob un yn lân a chryno.

Fe safant wrth bont Teifi
I ddisgwyl am y meistri,
Ddaw yno i fargenio'n daer
Ar ddydd y Ffair Gyflogi.

[*Daw* WIL *a* JAC *i mewn yn frysiog ac yna fe'u gwelir yn aros wrth fur y bont*].

JAC : Ni'n dau yw'r cynta ar y bont heddiw. Fe fydd siawns go dda gennym am le 'rwy'n siŵr.

WIL : 'Wn i ddim, wir, Jac bach, fi yw'r cynta' yma bron bob blwyddyn, ond wfft i'r llefydd drwg 'rwy'i wedi'i gael ! Mae'r deryn bore yn dala'r mwydyn ond mae'r mwydyn bore yn cael ei ddala hefyd.

JAC : Fe fyset ti'n cwyno mewn pot o fêl. Cymer fwgyn bachan, mae gen i dipyn o faco main fan hyn. [*Mae* JAC *yn dechrau malu'r baco main, ac fel bo'r amser yn mynd yn ei flaen fe fydd yn tynnu'r bibell glai allan ac yn smocio*].

WIL : Alla' i byth â smoco yn y bore fachgen, ac yn enwedig bore heddiw. 'Rwy wedi bod yn bwyta bwyd y wraig os dau ddiwrnod weldi, a ma' hwnnw dipyn yn frasach na bwyd Cati'r Hendre. Mae'r hen stymog 'ma yn troi fel merri-go-rownd !

JAC : Bwyd gwael oedd yn yr Hendre iefe ?

WIL : Ie, sucan a bwdran, bwdran a sucan am yn ail. Mae rhai o'r ffarmers 'ma yn credu mai llo bach yw dyn gallwn feddwl !

JAC : 'Doedd hi ddim yn dda yn y Gilfach chwaith. Fues i yno am dair blynedd a weles i ddim argoel bod nhw'n mynd i ddibennu cig yr hen hwch felen fawr oedd gyda nhw yn y lwfer !

WIL : Paid dweud dim rhagor, dyna eitha' digon. 'Does dim synnwyr fod dynion yn codi am bedwar y bore a gweithio hyd naw y nos ar shwt fwyd. [*Ar hyn daw* TWM, *gwas bach yr Henfro a'r* COWMAN *atynt. Y mae'r gwas bach yn chwibanu cân y* ' *Mochyn Du* ']

WIL : Gad i'r hen ' fochyn du ' i fod, petaet yn canu am angladd hwch felen y Gilfach fe fyset yn gwneud rhyw wasanaeth.

COWMAN : Gad i'r crwt yn llonydd, fe ddaw e'n hen digon buan. [*Ar hyn mae'r* COWMAN *yn ymuno gyda'r chwibaniad gan ddechrau canu "O mor drom yr ydym ni," etc. Mae pawb yn ymuno ag eithrio Wil*].

JAC : Hisht fechgyn ! Mae rhywun yn dod. Ie, Jones y Fron yw e' ; mae e'n chwilio am was mawr medde nhw. [*Mae pawb yn aros yn syber o dawel, a gwelir* JONES *yn dod ymlaen dan sgwario a tharo ffon fechan yn erbyn ei goes*].

JONES : Bore da fechgyn ! Ichi'n barod i gyflogi ?

GWAS BACH : Odyn Syr ! Barod os amser !

JONES : 'Dwy'i ddim yn siarad â ti. Eisiau dyn sy' arna' i nid ceilog bantam. Oes na was mawr yma ?

JAC : Oes, Mr. Jones, 'rown i'n was mawr yn y Gilfach llynedd ac 'rwy'n gallu dilyn ceffylau, aredig, lladd gwair a phob peth.

JONES : Popeth iefe ? Wyt ti'n gallu gweithio ? Mae rhai ohonoch yn gallu gwneud popeth ond gweithio ! Ond fe wn rywbeth amdanot ti, 'rwyt ti'n go lew. Faint oedd dy gyflog di llynedd ?

JAC : Deunaw punt a rhych o datws i mam.

JONES : Mi rof ddeunaw a chweugain i ti.

JAC : Wel, 'rown i'n golygu cael peder ar bymtheg a thatws eleni. Chewch chi ddim llawer o neb arall am y pris yna !

JONES : Bachgen ! Peder ar bymtheg, beth wyt ti'n gredu ydw i ? Deunaw a chweugen yw 'mhris i !

JAC : O na, mae'n rhaid i fi gael y tatws.

JONES : O'r gore, deunaw a chweugen a rhych o datws. Wyt ti'n fodlon ?

JAC : O'r gore.

JONES : Dyma swllt o ' ern ' i ti. [*Y maent yn taro dwylo a gwelir* JAC *yn esgus poeri ar y swllt a'i rhoi yn ei boced. A'r ddau i ffwrdd gyda'i gilydd*].

JAC : Bore da fechgyn—pob lwc i chi !

PAWB [*Yn ei dro, a* WIL *yn olaf rhyngddo â'r llawr*] : Dydd da !

WIL : Dydd da. Hy ! Edrychodd e ddim arna i !

COWMAN : Dere di, Wil bach, fe ddaw rhywun arall. Dyma hi ar y gair ! Mrs. Jones y Plas a'r Bwtler. 'Nawr 'te amdani. "Bore da bechgyn bach, shwt ma' chi." [*Dywed y* COWMAN *hyn o gil ei geg. Daw* Mrs. JONES *a'r* BWTLER *ymlaen. Y mae* Mrs. JONES *yn dal ei sbectol yn ei llaw ac yn edrych yn ofalus ar y rhes ar y bont*].

Mrs. JONES : Dyma nhw Williams ; Bore da bechgyn bach, shwt ma' chi ?

Y BECHGYN [*Dan godi bys at gap*] : Bore da Madam !

WILLIAMS : Quite so, quite so !

Mrs. JONES : Ma fi am Cowman a gwas bach. Ma' lle braf yn Plas ni, digon o bwyd, digon o gwely a digon o gwaith.

WILLIAMS : Quite so, quite so !

Mrs. JONES : Fi'n cynnig deunaw punt i'r Cowman a pum punt

i'r gwas bach a dim ragor o siarad.

COWMAN : Wel, yr wyf fi'n gowman a dyma Twm fan hyn yn was bach.

Mrs. JONES : Ie fi'n gweld ti'n iawn a fi'n nabod tad ti hefyd. Ond ble ma' fe gwas bach ?

COWMAN : Dyma fe Mrs. Jones. [*Mae* Mrs. JONES *yn chwilio amdano drwy'r sbectol*].

Mrs. JONES : O ie, dyma fe ! Wel, fi'n cymryd chi dau.

COWMAN : O'r gore mam.

GWAS BACH : O'r gore.

Mrs. JONES : Williams, rho di swllt i'r Cowman a chwech i'r gwas bach.

WILLIAMS : Quite so, Quite so ! [*Dyry'r arian iddynt, ond nid oes taro dwylo'r tro yma—mae gair* Mrs. JONES y Plas *yn ddeddf*].

Mrs. JONES : Byddwn ni yn gweld chi fory yn bore bach. Bore da bechgyn bach ! [*Ac i ffwrdd â hi gan ddilyn ei sbectol, a* WILLIAMS *yn ei dilyn hithau*].

WIL : Dyna chi wedi cael lle i gyd ond fi.

COWMAN : Paid hidio ! Efallai cei di fynd yn lle Jac i'r Gilfach i gadw cwmni i'r hen hwch felen fawr am flwyddyn ! [*A'r tri allan a'r* GWAS BACH *yn olaf, yn mynd dan chwibanu'r* ' *Mochyn Du* '.]

CÔR :

Aeth heibio'r dydd cyflogi
A welwyd ar Bont Teifi,
A Jac a'r Cowman a'r Gwas Bach
Ânt ffwrdd yn iach eleni.

Ond beth am Wil yr Hendre
Sy'n teithio tuag adre',
Rhaid iddo yntau fynd ar daith
I chwilio gwaith yn rhywle.

Atgofion Sion Ifan Sion

[*Bu raid gadael i'r dyfyniadau yma dros dro oherwydd y lleihad yn nifer ein tudalennau a rhywbeth arall yn galw am le o hyd.*—GOL.]

HEN GOELION AM Y TYWYDD.

Os na fydde gyda ni bosis yn Tŷ Whith 'roedd yna rywbeth i'n difyrru bob amser. Tua amser cynhaea gwair 'roedd pawb yn treio cofio beth oedd arwyddion y tywydd, a phetai dyn yn edrych ar liw pob broga yn y cwm i weld a oedd e'n felyn, dwy' ddim yn siwr y byddai hyd yn oed hynny yn warant am dywydd teg.

Nid oedd sicrwydd chwaith y byddai'r brogaed yn cytuno â photel fach Nanw Tŷ Pen bob amser, a hyd yn oed pan oeddynt yn cytuno fe ddoi rhyw hen ffwgen o gawad ddisymwyth yn amal iawn. Ond er gwaethaf anlwciau bach fel yna 'roedd yr hen bobol yn credu'n gadarn yn yr arwyddion i gyd, yr oedd yn eu gwaed ac wedi ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Heno bûm yn ceisio galw rhai o'r hen ddywediadau i gof ac wrth gofio yr oeddwn yn mynd nôl i'r cyhudd yn yr hen gae gwair mawr dan y tŷ a chlywed yr hen warriers yn eu dweud yn y cyhudd o dan y dderwen fawr. "Na," meddai Teitws, "hen gadno yw e, ma'r houl wedi codi rhy fore heddi 'to !" "Wi'm yn gwbod," meddai Ianto, "Odd cylch agos rownd i'r lleuad neithwr, a *chylch agos*—glaw 'mhell !" Ond ni thâl i mi fanylu, er fy mod yn clymu pob dywediad wrth ryw berson arbennig. Y peth gorau fydd rhoi rhestr gore gallwyf.

Arwyddion tywydd teg.

Lleuad newydd ar ei chefn yn dal y glaw i gyd.
Yr haul yn mynd i lawr yn goch.
Y dŵr yn dod adre.

Bwa yn y bore
Amal gawode !
Ond bwa prynhawn
Tywydd teg a gawn.

Os bydd dail ar y dderwen o flaen yr onnen, gellir disgwyl am dywydd teg.

Os oedd y mwg yn mynd lan yn union, tywydd teg am amser hir.

Os oedd gwynegon ym mhenlin Siân Aberlogin, yr oedd altrad tywydd cyn bo hir.

Os oedd y gath yn crafu gwaelod post y drws fe ddoi gwynt ar ei union.

Y wylan fach adnebydd
Pan fydd 'na altrad tywydd,
Hi hed yn deg ar aden wen
O'r môr i ben y mynydd.

Byddai tywydd teg os gwelid y wennol yn hedfan yn uchel, ac os yr ai'r defaid i ben y mynydd yr oedd hynny hefyd yn dod a thywydd da.

Whilibwmp yn canu
Tywydd teg yfory.

Tes y glennydd yn arwydd o dywydd.
Pioden yn gwneud ei nyth yn isel ar y goeden.

Mis Mai oer a wna'n ddi-nag
Sgubor lawn a mynwent wag.

Mai gwlybyrog ganddo cair
Lwythi llawn o ŷd a gwair.

Arwyddion tywydd garw.

Trwch o grawel ar y drain gwynion yn arwydd o aeaf caled.
Yr haul yn machlud yn wyn.
Y gwartheg yn gyrru ymlified.
Y gath yn golchi ei gwyneb a'i phawen.
Os daw'r cornicyllod lawr i'r llefydd isel.
Cyrn ar y traed yn llosgi.

Niwl y gaea'n arwydd eira,
Niwl y gwanwyn, gwaeth na gwenwyn.

Y wennol yn hedfan yn isel a'r pryfed mân yn pigo.

Gwynt o'r môr, glaw ar i ôl.
Niwl o'r môr, glaw ar i ôl.

Y ci'n pori a'r da'n gorwedd
Ddaw a chawad fawr o'r diwedd.

Lliw du ar y broga.
Defaid bach yn yr awyr.
Y gwyddau yn ymolchi.

Mawrth a ladd Ebrill a fling,
A rhwng y ddau fe fyddwn heb ddim.

Os yn Chwefror y tyf y pawr,
Drwy'r flwyddyn wedyn thyf e fawr.

Yr oedd gennym lawer o ddywediadau pert eraill am lawnder y tymhorau tebyg i'r rhai uchod, ac er nad arwyddion y tywydd mohonynt mewn gwirionedd cystal i mi nodi rhyw ychydig yn rhagor.

Chwefror a chwyth ac ni chwyd neidr oddiar ei nyth.

Os ym Mawrth y tyf y ddôl
Gwelir llawnder ar ei ôl.

Gwell gweld dodi mam ar elor,
Na gweld tywydd teg yn Ionor.

Oerni heb wlaw,
O'r Gogledd y daw.

Ac ambell waith ceid dihareb y gellid ei newid fel bo'r angen :

Tywyll fôr a golau fynydd
Drycin gawn ni yn dragywydd.

Golau fôr a thywyll fynydd,
Tegwch gawn ni yn dragywydd.

Os bydd yn deg ar hen Wyl Fair
Cod yn fore i brynu gwair.

(Ar Chwefror 13eg yr oedd yr Hen Wyl Fair).

Lle bo hen wair bydd hen aur.

Pedwar peth gynyddant ar wres
Rhedyn, tato, gwenyn a mes.

Ac yn olaf i gyd ysgrifennaf hen air sydd wedi bod ar fy meddwl lawer tro, hen air sy'n dweud am rywbeth mwy na thywydd—

Daw eto haul ar fryn
Nid ydyw hyn ond cawod.

"John Brynare"

Gan J.C.J.

Ar ôl ychydig gystudd, bu farw John ar yr unfed-ar-ddeg o Chwefror yn ei gartref yn Belmont, Penrhos, Bangor, Gogledd Cymru, yn 86 mlwydd oed. Brodor o Geredigion oedd John, a mab i'r diweddar Mr. a Mrs. Jenkin Thomas, Pantybryn, ger Capel Bwlchyfadfa. Bu'r teulu yn byw yn Brynare, fferm ar ffiniau plwyf Llanarth, Llanwenog a Llandysul sydd erbyn hyn wedi ei dadfeilio'n llwyr. Pan oedd yn ieuanc, bu ef a'i frawd, y diweddar Evan Thomas, Gafryw, Llanarth, yn ffyddlon yng nghapel Bwlchyfadfa, cyn iddynt ymadael at ei gwahanol alwadau. Yr oedd John yn anturiwr mawr, a symudodd o swydd i swydd yn ystod ei ieuenctid. Bu am dymor yng ngwasanaeth y diweddar D. H. Evans, Pontsiân, ac oddi yno aeth yn brentis at y diweddar Ben Evans, Cwrtnewydd i ddysgu crefft cyfrwywr (*saddler*).

Wedi meistroli'r grefft hon, bu yn llwyddiannus i gael ei dderbyn fel diwygiwr mewn sefydliad yn Llundain. Yno, daeth John i

sylw'r pennaeth yn lled fuan a chafodd ei ddewis yn gynrychiolydd y Cwmni i ymweled á stablau'r Brenin a mannau eraill bob dydd. Ef oedd yr unig Gymro a ddaeth yn amlwg i'r Brenin yn y swydd hon.

Cyn hir cafodd ei ddewis yn Arolygwr ar *Sadlery* y G.W.R. o Lundain i Gaerdydd. Wrth fynychu dinas Caerdydd a'r cylch yn aml, gwelodd fod Barry yn cyflym godi i fod yn borthladd newydd, a daeth i'r penderfyniad i anturio ar fusnes ei hun yn Barry Dock, ac yn Holtom Road cododd dŷ newydd, a bu yn masnachu yno am rai blynyddoedd. Tua'r amser yma ymbriododdá Miss Williams, merch y diweddar Mr. a Mrs. Williams, Tangraigfach, Cwrtnewydd. Yn ystod ei arosiad yn Barry yr oedd yn mynychu Capel Undodaidd West Grove, Caerdydd, ac yn fuan daeth i adnabyddiaeth á bobl blaenllaw yr achos yno.

Daeth siomiant dros gynnydd y Barry am dro, a rhoes ef ei fryd ar uchelgais mwy sylweddol. Llwyddodd drwy gymorth cyfeillion dylanwadol i gael ei law i brif Swyddfa y R.S.P.C.C. yn Llundain. Bu yno dan hyfforddiant am dro, ac apwyntiwyd ef yn brif swyddog i'r Gymdeithas yng Nghymru. Bu yn gweithio o Bontypridd drwy'r cymoedd cylchynol am rai blynyddoedd cyn iddo gael ei ddyrchafu i Ogledd Cymru yn Bangor, lle bu hyd ei farwolaeth. Yr oedd wedi ymddeol o'r swydd ers rhai blynyddoedd. Yr oedd Inspector John Thomas yn barchus a dylanwadol iawn gan Ynadon Arfon a Món, a chafodd sylw arbennig ganddynt ar ei ymddiswyddiad fel swyddog gofalus a llwyddiannus. Claddwyd ef yn Eglwys St. Cross, Talybont, ger Bangor wrth fedd ei briod, yr hon a'i rhagflaenodd am rai blynyddoedd. Saif St. Cross wrth lannau Afon Menai, lle tlws a thawel ymhell o dir ei hen gartref, Ceredigion. Yr oedd John yn gwmniwr diddorol a difyrus, a gwnaeth gyfeillion mynwesol lle bynnag y bu. Gadawodd un mab sydd yn Ysgolfeistr yn Lerpwl, a dwy ferch mewn hiraeth ar ei ól. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch. E. G. Wright, Ficer St. Davids, Glanadda, a'r Parch. J. Williams Jones, St. Cross. Heddwch fo i'w lwch.

Y FFWL.

Gan Abiah Roderick.

Fe licwn gal gair 'da ti am funed,
'D wy ddim meddwl dy gatw di'n hir,
Dim ond gair bach, a falle fydd hwnnw
Yn air fydd yn cyrradd y gwir.

Nace ti odd yn whilia fwya,
Ac yn gwpod y cwbwl i gyd,
Ac fe gretest, am fod neb yn dy ateb di 'nôl
Taw ti odd y calla'n y byd.
Ti, fu mor siwr o dy hunan,
Ac mor falch fo ti shwd ddyn bach streit,
A'r blas gest wrth dwyllo dy hunan a gweud
Taw ti odd wastod yn reit . . .
Y ffwl.

Wyt ti'n gwpod beth yw gostyngeiddrwydd?
A welest ti fawredd sant—
Welsot ti ddynon â dwrne alle dy fwrw di'n ffiat
Yn dy odde di, a chered bant;
A tithe fel rhyw gilog y domen
Yn blaban a blaban drachefn,
A phawb yn neud sbort am dy ben di . . .
Oe'n nhw'n wherthin heb acor 'u pen.
Ac fe buo ti byw 'da rhai dynon
Odd yn ddicon di-sut yn y byd,
Rhai welws ofitie, trafferthion a chroes,
Ac yn gwenu drw'r trwpwl i gyd.
Do do, buot byw 'da rhai felna,
O do, am flynyddodd hir,
Ond odd dim dicon o ras yn dy galon di
I dy liced iddi napod nhw'n glir,
Ac fe ddotest nhw lawr fel rhai meddal.
Ac i ti oe'n nhw'n atgas i'r carn . . .
Ond gwed di be ti'n dewish, rhai meddal fel rhain
Fydd yn sefyll . . . pan gwelwn ni'r Farn.

I ni'n gwpod beth yw dyn wedi meddwi,
Wedi hala nosweth ar sbri,
A fe welso ni ddynon yn rhecu
So'u gwynepe nhw'n las ac yn ddu,
Ond es di i dy gapel yn didi,
A dy gyffes a dy goler yn lân,
A 'na hwyl ges di wrth sôn am y meddwon.
A'i gweddïo nhw i uffern dân,
A diws! est i weud ar dy linie
Wrth Dduw fo ti'n well na nhw,
Ond clyw, ath dy weddi di ddim yn bellach na'r sêt,
Odd e ddim byd ond halabalw.

Ma'r meddwon yn sobri'r ail fore,
A ni'n gwpod fod nhw i gyd o with,
Ond o gwrw dy hunangyfiawnder di
'S dim gobeth y sobri di byth . . .
Y ffwl.

Er Côf Am

ANNE EVANS, GERALLT, PONTSHAEN.

Mewn hiraeth 'rydym beunydd,
Mor flin oedd colli Anne
A hithau'n ferch o dalent
A ffyddlon ym mhob man.

Wrth ddod i weld cyfeillion
Fe'i caed bob tro yn llon,
Un gelyn ar ei llwybrau
Erioed ni welodd hon.

Er teithio llawer siwrnai
I drefydd mawr y byd,
Yn agos at ei chalon
Oedd ardal lân ei chrud.

Wrth ddod i ddrws y Gerallt
'Roedd croeso ar ei rhan,
A melys ydyw meddwl
Cawn ail gyfarfod Anne.

I'r brawd a'r chwaer a'r teulu
Boed bendith ar ei taith ;
Cyn gweled ein hanwyliaid
Ni fyddwn amser maith.

Penlôn, Tregroes. D. Davies.

Priodasau.

Dydd Sadwrn, 16eg o Fehefin yng Nghapel-y-Bryn, Cwrtnewydd, priodwyd Mr. TITUS NOEL JONES, Maesymeillion, Llandysul â Miss SARAH JANE JONES, Crosshands, Cwrtnewydd. Gwasanaethwyd gan y Parch. S. E. Bowen.

Mehefin 19, 1951, yng Nghapel Ciliau Aeron, gan y Parch. Lewis Williams yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. Lloyd Jones, Ty'ny-gwndwn, unwyd mewn glân briodas Miss FRANCES MAIR DAVIES, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Evan Davies, Gerallt, Pontshaen (gynt o Foelallt, Ciliau Aeron) â Mr. ALLAN CEREDIG JONES, mab Mr. a Mrs. Jones, Pensarn, Talgarreg. Hir eu dyddiau heb fara gofidiau.

Marwgof.

Mehefin 9, ar ôl cystudd caled, SARAH, gweddw y diweddar Evan Jones, 66, Heol-y-dŵr, Caerfyrddin (mab y diweddar Daniel a Mary Jones, Penrhiwcoile, Rhydowen), yn 84 oed. Dygwyd ei gweddillion i fedd ei phriod ym mynwent Llwynrhydowen y Mawrth dilynol—yr angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Emrys Jones ei gweinidog, ac yn y Capel a'r Fynwent gan E. O. Jenkins, Mr. Morris (B), Llangyndeyrn a D. A. Williams (A), Pontyberem. Y nef a gofio'r ddwy ferch a'r perthnasau eraill a adawyd i alaru.

Newyddion yr Enwad.

CYRDDAU SEFYDLU'R PARCH. J. MARLES THOMAS.—Cyhoeddwyd y cyrddau yma yn rhifyn Mehefin, i'w cynnal ar y dydd diwethaf o Orffennaf a'r cyntaf o Awst. Erbyn hyn cyhoeddir fod y dyddiadau wedi eu newid. Bydd y Cwrdd Croeso ym Mhantydefaid nos Fawrth, y 14eg o Awst a'r Cwrdd Sefydlu yn y Graig trannoeth am 2 a 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

PANTYDEFAID.—Penodwyd Mr. D. O. Evans, Pontbren yn Ysgrifennydd y Capel a Mr. D. E. G. Davies, M.R.C.V.S., Faerdre yn Drysorydd yn ddiweddar. Dymunwn i'r ddau ŵr ifanc ymrous yma bob bendith a llwyddiant yn eu gwaith.

Y GYMANFA GANU.—Cafwyd Cymanfa lwyddiannus iawn yng Nghapel Soar, Llanbedr ar y Llun cyntaf o Fehefin, o dan arweiniad Mr. D. T Davies, F.R.C.O., Dowlais. Bu'r tywydd yn garedig iawn ac fe gafwyd gŵyl i'w chofio. Yr oedd yr hen ffyddloniaid yno yn gryno, ond y plant a'n cododd i'r uchelfannau eleni. Cafwyd adroddiadau rhagorol gan Anne Jonathan, Daff Thomas, Dafydd Lloyd Jones, Eilir Jones, Tom Davies-Jones, Nel Davies a Violet Becket, a chanu soniarus gan Gôr y Bwlch o dan hyfforddiant Miss Ellen Thomas. Hir y cofir am unawdau hyfryd George Davies, Goronwy Evans, Mary a Jane Davies, Audrey, Jenny a Sally Davies—y cwbl yn canu heb rybudd. Yr Organydd oedd Mr. Ted Morgan, a llywydd cwrdd y bore oedd Miss S. A. Jones. Mr. David Jones a lywyddodd y prynhawn ac un o flaenoriaid Soar, Mr. Maldwyn Hughes, yn yr hwyr. Trefnydd yr oedfaon oedd y Parch. T. O. Williams, a chafodd gynorthwy y Parchn. Trefor Lloyd, Siloh ; y Prifathro J. D. Jones. Bu gofal y Côr ar Mr. Ted Jones a Mr. Daff Davies. Derbyniodd Mr. D. T. Davies wahoddiad y Pwyllgor i arwain y Gymanfa nesaf ar y 9fed o Fehefin, 1952. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd eto ar y 22ain o Orffennaf yng Nghapel-y-Bryn a disgwylir dau gynrychiolydd o bob eglwys.—D.D.

YMWELIAD LLYWYDD Y 'GENERAL ASSEMBLY.'—Dydd Sul, Awst 19, bydd Llywydd y Gymdeithas Gyffredinol, y Parch. G. Randall Jones, M.A., B.D., B.Sc., yn ein plith yn sir Aberteifi. Trefnir iddo bregethu i oedfaon undebol yn y prynhawn ac yn yr hwyr. Ceir y manylion yn ddiweddarach. Apelir yn daer am gydweithrediad y cynulleidfaoedd i sicrhau cyfarfodydd lluosog.—S.E.B. (*Ysgrifennydd*).

LLUNDAIN (Highgate Hill, ger Gorsaf Archway).—Y mae'n bosib bod yn hapus a thrist yr un pryd. Gwelir pobl Llundain yn mwynhau ei hunain yn nyddiau Gŵyl Brydain, ond ar yr un pryd yr ydym bawb yn bryderus o gofio am Korea a chymylau'r rhyfel. Trist ydym hefyd fel cynulleidfa o feddwl am ymadawiad buan Mr. Gwilym Davies, B.A. a'i deulu, ond gorfoleddwn o gofio ei fod yn mynd i lanw swydd bwysig iawn ym Manceinion. Y mae Gwilym wedi bod yn gyfaill ffyddlon iawn ac nis gwn sut y gallwn wneud hebddo. Gwelwn ei eisiau yn enwedig gyda chanu'r organ, trefnu'r cyrddau adloniadol, yr yrfa chwist a 'ffeiriau sborion' yr eglwys Saesneg yma. Pob hwyl iddo ef a'i deulu ym Manceinion, ond gofynnwn i'r cyfeillion yno ei ddanfon yn ôl atom i'r Brifddinas cyn hir iawn!—Llongyfarchwn hefyd y Parch. George Grieve, B.A., ar ei alwad i lanw pulpud eglwys gyntaf Bresbyteraidd, Belfast—un o eglwysi mwyaf yr Undodiaid. Cydymdeimlwn â'n cyfeillion o'r eglwys Saesneg yma yn Highgate yn eu colled. Gwêl y Bwrdd Presbyteraidd a Choleg Caerfyrddin ei eisiau hefyd oblegid rhoddodd wasanaeth mawr iddynt ac i Gymru drwyddynt. Y mae'n bosib y bydd i'n cyfeillion o Saeson yn Highgate gael Cymro i'w bodloni fel bugail. Os cânt, fe ymuna ein cynulleidfa ninnau â hwynt o dan yr un fugeiliaeth, gyda gwasanaeth Saesneg iddynt hwy bob bore Sul, a gwasanaeth Cymraeg i ninnau bob yn ail Sul. Efallai hefyd y bydd yn bosib i gael gwasanaeth Saesneg i'r ddwy gynulleidfa ar y nos Suliau eraill—neu hyd yn oed gwrdd Cymraeg bob nos Sul. Os ceir Cymro i ateb y gofynion dyry hyn fywyd newydd i'n mudiad ni ond cofir fe ofyn hynny am ein ffyddlondeb a'n brwdfrydedd. Oddi ar ddechrau 1946 cawsom Gyrddau Mawr ddwy waith bob mis, a chyn hynny am yn agos i ddeng mlynedd, Cwrdd Mawr unwaith y mis. Gobeithio nad ydym wedi mynd yn Undodiaid Cyrddau Mawr yn unig. Y mae'n bosib ein bod yn awr yn wynebu her; gweddïwn y bydd i ni ei wynebu gyda phenderfyniad i dyfu i fod yn un o eglwysi mwyaf pwysig yr enwad. Y mae angen gweddïau a dymuniadau gorau Undodiaid Cymru arnom yn awr yn fwy nac erioed.—Yr ydym yn ddyledus iawn i'r Parch. S. E. Bowen, Mr. Bryn Jones, B.Sc. a'r Parchn. T. L. Jones a T. O. Williams am gymryd ein gwasanaethau yn ddiweddar. Hyfrydwch oedd gweld Mr. Bryn Jones gymaint yn well o ran iechyd a rhwydd hynt iddo gael adferiad llawn a buan.—Cawsom Yrfa Chwist lwyddiannus arall ar y 24ain o Fai, ac edrychwn ymlaen am ragor yn yr Hydref. Diolchwn i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r rhain drwy'r tymor. Cafodd rhai o'r gynulleidfa y pleser mawr iawn o fod yn y Gymanfa ac yn eu plith, Ysgrifennydd y Gymanfa, Denzil Davies a deithiodd ymlaen ac yn ôl o Romney Marsh, Caint, lle'r oedd gyda *School Journey* ar y pryd.

GALWAD I'R PARCH. J. CORAM DAVIES.—Derbyniodd Mr. Davies alwad i'r Church of the Divine Unity, Newcastle-on-Tyne, fel olynydd i'r Parch. Herbert Barnes, gŵr a gyfrifid ymhlith goreuon ein pregethwyr yn Lloegr. Llongyfarchwn Mr. Davies ac estynnwn ein dymuniadau mwyaf gwresog iddo yn ei faes newydd.

PERERINDOD I GELLIONNEN.—Aeth Cymdeithas Undodaidd De-Ddwyrain Cymru ar bererindod i Gellionnen brynhawn Sadwrn, yr 20ed o Fehefin. Cafwyd tywydd go lew at y daith a'r dringo a daeth ymhell dros gant o bererinion o bob man i dalu teyrnged o barch i'r pererinion gynt. Cynhaliwyd gwasanaeth gan y Parch. E. J. Williams, Notais (Llywydd y Gymdeithas), ac yn un o'r areithiau gorau a glywyd ganddo erioed, rhoes y Prifathro J. D. Jones fras-olwg dros hanes yr hen gapel a'i ffyddloniaid. Daeth aderyn bach i ganu atom a chwythodd awel pen y mynydd yn dyner arnom. Daethom yn ôl i'r Graig wedi derbyn bendith a chyn mynd tua thre, gofalwyd gan y gwragedd yno am y dyn mewnol.

PRINDER PAPUR.—Fel yr eglurwyd mewn nodiad beth amser yn ôl y mae llyfrau a chylchgronau Cymraeg yn wynebu ar gyfyng-gyngor ofnadwy. Y mae hyd yn oed yn bosib, oni ddaw goleuni o rywle, na fydd papur hyd yn oed i gylchgronau fel Yr Ymofynnydd. Fe'm rhybuddiwyd eisoes y gallwn ddisgwyl codiad sylweddol fel y mae. Ni raid egluro mai America, sydd mor dyner ei gofal am fuddiannau gwledydd bach, sydd yn gyfrifol am hynny. Gofynnaf unwaith eto, yn y modd mwyaf difrifol am *ffyddlondeb eithafol* i'n cylchgrawn yn ei enbydrwydd.

CYRDDAU BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS

Llywydd : Mrs. PARKE DAVIES, Llandysul.

Cynhelir y Cyrddau yn

Llwynrhydowen

Dyddiau Mawrth a Mercher, Gorffennaf 31 ac Awst 1af, 1951.

Nos Fawrth :

6.30. Y Parchn. Noel James, B.A. a D. Jacob Davies, B.A.

Dydd Mercher : 10.30. Pwyllgor.

2.00. Anerchiad y Llywydd a Phapur gan y Parch. R. Islwyn Pritchard, B.A. ar "Comiwnyddiaeth a Chrefydd." Siaredir ymhellach gan y Parch. J. Islan Jones, M.A., a cheir trafodaeth i ddilyn.

6.00. Pregethir gan y Parchn. J. Marles Thomas, M.A. a T. O. Williams, M.A.

Croeso Cynnes i Bawb.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.